



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS
Yr Ysgrifennydd Cartref
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

6 Medi 2018

Parth: Deall y Gwahaniaeth: Yr Ymateb Cychwynnol i Droseddau Casineb

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Rwy'n croesawu'r adroddiad archwiliad thematig diweddaraf hwn gan AHGTAEM, sy'n tynnu sylw'n briodol at y ffordd y mae heddluoedd yn cefnogi dioddefwyr o fewn ein cymunedau amrywiol. Mae'n galonogol gweld dioddefwyr rhai o'r troseddau mwyaf gresynus yn cael eu hannog i ddweud wrth yr heddlu amdanynt. Er bod yr adroddiad yn awgrymu bod cynnydd wedi bod yn rhy araf, rwy'n cael fy nghalonogi a'm sicrhau gan ymagwedd Heddlu Dyfed-Powys tuag at gefnogi dioddefwyr troseddau casineb.

Mae ein Heddlu'n arddangos ei ymrwymiad tuag at fynd i'r afael â throseddau casineb drwy:

- Strategaeth troseddau casineb fyw, proffil problemus a chynllun cyflenwi;
- Darparu canllawiau gweithredol penodol o ran troseddau casineb a rhestr wirio ar gyfer y safonau lleiaf, sy'n cael ei diweddarau ar hyn o bryd;
- Rhoi hyfforddiant i bob aelod o staff rheng flaen ynghylch ymwybyddiaeth o droseddau casineb;
- Hyfforddi a lleoli Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb penodol i weithio gyda dioddefwyr;
- Gofyn i alwyr sy'n adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol os ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu targedu er mwyn adnabod troseddau sydd o bosibl yn cael eu hysgogi gan gasineb mor fuan â phosibl;
- Defnyddio cynllun gweithredu cychwynnol penodol er mwyn sicrhau'r ymateb gorau posibl i ddigwyddiadau casineb;
- Cynnal sganio dyddiol ar-lein er mwyn adnabod troseddau casineb seiber posibl;

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel:

01267 226440

Ffacs: Fax: 01267 226448

E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



**COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER**

- Darparu cyfeirio awtomatig at wasanaethau cymorth dioddefwyr, oni bai nad yw'r unigolyn yn dymuno hynny; a
- Gweithio gydag asiantaethau partner er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â throseddau casineb.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod angen cynnydd pellach. Daeth adroddiad diweddar (ym mis Ebrill 2018) o ddigwyddiadau a throseddau casineb gan fy Mhanel Sicrhau Ansawdd annibynnol o hyd i anghysondebau o ran cofnodi ymateb Heddlu Dyfed-Powys i gasineb, gan gynnwys:

- Adnabod bregusrwydd;
- Cyfeiriadau at wasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr;
- Cwblhau'r cynllun gweithredu cychwynnol; ac
- Amseroldeb ymgysylltu â dioddefwyr a goruchwyllo achosion.

Fodd bynnag, daeth fy Mhanel o hyd i dystiolaeth o ymgysylltu da gan Swyddogion Cymorth Troseddau Casineb o ran rhoi cymorth a diweddariadau i ddioddefwyr. Mae'r Heddlu wedi derbyn arsylwadau'r Panel, a fydd yn cael eu dilyn trwy adolygiad arall y mis hwn er mwyn asesu'r gwelliannau a wnaed.

Rwy'n hyderus y bydd ffocws parhaus Heddlu Dyfed-Powys ar "wneud y pethau sylfaenol yn wych" a'i strategaeth a'i gynllun gweithredu manwl mewn perthynas â throseddau casineb yn gyrru'r gwelliannau gofynnol. Bydd fy swyddfa'n parhau i weithio gyda'r Heddlu er mwyn sicrhau bod ein cymunedau bywiog ac amrywiol yn cael eu cefnogi i fod yn falch o bwy maen nhw'n cynrychioli ac yn teimlo'n hyderus i fyw'n rhydd rhag ofn.

Ceir copi o'r ymateb hwn ar fy [ngwefan](#).

Yr eiddoch yn gywir

Dafydd Llywelyn
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

Copi at: AEM Wendy Williams

Y Prif Gwnstabl Mark Collins

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

